

Mae rhai o ddisgwyliadau'r FfLIRh ar gyfer Blwyddyn 5 yn cynnwys:

Defnyddio Sgiliau Rhif

- Darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 000.
- Cymharu degolion 1 lle degol a 2 le degol.
- Defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau llusoi 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu.
- Defnyddio strategaethau dyblu a haneru.
- Defnyddio'r ddealltwriaeth o gywerthedd ffracsiynau a degolion syml wrth fesur a chyfrifo.
- Canfod gwahaniaethau rhwng rhifau ag 1 lle degol.
- Adio a thynnu rhifau 3 digid drwy ddefnyddio dull meddwl neu ysgrifenedig priodol.
- Lluosi a rhannu rhifau 3 digid â rhif 1 digid.
- Amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, y 100 neu'r 1 000 agosaf.
- Cymharu a rhoi eitemau mewn trefn o ran cost hyd at £1 000.
- Adio a thynnu cyfansymiau llai na £100 drwy ddefnyddio'r nodiant cywir, e.e. £28.18 + £33.45.

Defnyddio Sgiliau Mesur

- Darllen a defnyddio clociau analog a digidol.
- Amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau, a rhoi'r canlyniadau mewn trefn.
- Cyflawni gweithgareddau ymarferol sy'n cynnwys digwyddiadau wedi'u hamseru ac egluro pa uned amser sydd fwyaf priodol.

Defnyddio Sgiliau Data

- Echdynnu a dehongli gwybodaeth o ddiagramau, amserlenni a siartiau.
- Cyflwyno data drwy ddefnyddio rhestrau, siartiau cyfrif, diagramau, siartiau bar, graffiau llinell ac ati.

Datblygu Ymresymu Rhifyddol

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd.
- Dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio.
- Dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas.
- Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol.

Rhoi cymorth i blant ym Mlwyddyn 5



Taflen i rieni
Helpu eich plentyn gyda rhifedd

Dyfaluwch fy rhif

Dewiswch rif rhwng 0 a 1 gydag un lle degol, e.e. 0.6.

Heriwch eich plentyn i holi cwestiynau ichi i ddyfalu eich rhif. Yr unig atebion y gallwch eu rhoi yw 'Ydy' neu 'Nac ydy'. Er enghraifft, gallai e/hi holi cwestiynau fel 'Ydy e'n llai na hanner?'

Tybed a all e/hi ddyfalu eich rhif mewn llai na phum cwestiwn?

Nawr gadewch i'ch plentyn ddewis rhif cudd ichi ei ddyfalu.

Estynnwch y gêm drwy ddewis rhif sydd ag un lle degol rhwng 1 a 10, e.e. 3.6.

Efallai y bydd angen rhagor o gwestiynau arnoch!

Faint?

Wrth siopa, tynnwch sylw at eitem sy'n costio llai na £1.

Gofynnwch i'ch plentyn weithio allan yn ei ben/phen gost tair eitem.

Gofynnwch iddo/iddi ddyfalu'n gyntaf.

Gwiriwch i weld pa mor agos mae'n dod i'r ateb cywir.

Os gwelwch chi eitem sydd â label, er enghraifft, '2 am £3.50', gofynnwch iddo/iddi weithio allan gost un eitem ichi, ac esbonio sut cafodd y rhif.



Rhannu gyda'r dis

Ar gyfer y gêm hon mae angen bwrdd 1-100 (bydd bwrdd nadredd ac ysgolion yn gwneud y tro), dis a 20 darn arian neu fotwm.

Pob un yn ei dro.

Dewiswch rif dau ddigid. Rholiwch ddis. Os ydych chi'n rhoio 1, rholiwch eto.

Os yw eich rhif dau ddigid yn rhannu'n union â rhif y dis, rhowch fotwm ar y rhif dau ddigid a ddewisoch chi. Fel arall, rydych chi'n colli'r tro hwnnw.

Y cyntaf i gael 10 botwm ar y bwrdd sy'n ennill.

Tablau

Dywedwch dabl 6 o'r dechrau i'r diwedd, yna o'r diwedd i'r dechrau. Gofynnwch gwestiynau i'ch plentyn, fel:

Naw chwech? Sawl chwech sydd yn 42?

Chwech pedwar? Pedwar deg wyth rhannu chwech?

Tri llusosi chwech? Chwech llusosi beth sy'n gwneud chwe deg?

Ailadroddwch hyn gyda thabl 8 a 10.

Heriau ffôn

Heriwch eich plentyn i ddod o hyd i rifau yn y llyfr ffôn lle mae'r digidau'n adio i wneud 42. Dewch o hyd i gymaint ag sy'n bosib mewn 10 munud.

Ar ddiwrnod arall, edrychwch i weld a all y plentyn guro ei gyfanswm blaenorol.

Gwneud llinellau

Mae angen pren mesur sydd â marciau centimetrau a milimetrau.

Defnyddiwch y pren mesur i dynnu llun 10 llinell syth wahanol ar ddalen o bapur.

Gofynnwch i'ch plentyn amcangyfrif hyd pob llinell a nodi'r amcangyfrif ar y llinell.

Nawr rhowch y pren mesur i'ch plentyn a gofynnwch iddo/iddi fesur pob llinell i'r milimetr agosaf.

Gofynnwch iddo/iddi ysgrifennu'r mesuriad wrth ymyl yr amcangyfrif, a gweithio'r gwahaniaeth allan.

Mae gwahaniaeth o 5 milimetr neu lai yn sgorio 10 pwynt. Mae gwahaniaeth o 1 centimetr neu lai'n sgorio 5 pwynt.

Pa mor agos i 100 pwynt y gall e/hi gyrraedd?

Tynnu gyda'r dis

Yn eich tro, rholiwch ddis ddwywaith.

Llenwch y blychau gwag.

400 – 399

e.e. 4002 – 3994

Cyfrwch ymlaen o'r rhif lleiaf i'r rhif mwyaf,
e.e. 3995, 3996, 3997, 3998, 3999, 4000, 4001, 4002.

Rydych chi wedi cyfrif ymlaen wyth, felly rydych chi'n sgorio wyth pwynt.

Cadwch gyfrif o'ch sgoriau. Y cyntaf i gyrraedd 50 neu ragor o bwyntiau sy'n ennill.

